# Y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor

17 Mehefin 2015

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 5 Mehefin, pan wnaethoch ofyn:

*Byddwn yn gwerthfawrogi'n fawr pe gallech nodi presenoldeb/absenoldeb pob Aelod Cynulliad ar gyfer y canlynol:*

1. *Pob Cyfarfod Llawn ar gyfer*
    a. *Mai 2011-Ebrill 2012*
    b. *Mai 2012-Ebrill 2013*
    c. *Mai 2013-Ebrill 2014*
    d. *Mai 2014-Ebrill 2015*
2. *Pob cyfarfod pwyllgor unigol yn y Cynulliad ar gyfer*
    a. *Mai 2011-Ebrill 2012*
    b. *Mai 2012-Ebrill 2013*
    c. *Mai 2013-Ebrill 2014*
    d. *Mai 2014-Ebrill 2015*

1. Ni chaiff presenoldeb Aelodau'r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ei gofnodi ac felly, at ddibenion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ni chedwir y wybodaeth hon. Mae'r crynodeb o bleidleisiau yng Nghofnod y Trafodion yn dangos pa Aelodau a bleidleisiodd yn ystod Cyfarfod Llawn penodol. [www.senedd.cynulliad.cymru/ieListMeetings.aspx?CmmitteeId=153](www.senedd.cynulliad.cymru/ieListMeetings.aspx?CmmitteeId=153)
2. Nid oes cofrestr ganolog ychwaith ar gyfer presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgor. Gellir gweld presenoldeb yn nhrawsgrifiad y cyfarfodydd pwyllgor o wefannau'r pwyllgorau unigol yma: [www.senedd.cynulliad.cymru/mgListCommittees.aspx](www.senedd.cynulliad.cymru/mgListCommittees.aspx)

    Gan fod y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email: Buddug.Saer@cynulliad.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliad.cymru/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF